

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Cofnodion y Cyfarfod

Dydd Iau, 8 Gorffennaf 2021

Ar-lein drwy Microsoft Teams, 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Karen Burch (KB) - Dirprwy-gadeirydd
Richard Leggett (RL)
Mo Rapley (MR)
Jillie Gardiner (JG)
Paul Barrett (PB)
David Stacey (DS)

Ysgrifennydd - Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad
Cyngor Sir Caerfyrddin

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Y Cynghorydd Hazel Evans (HE) - Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd
Sue James (SJ) – Swyddog Cymunedol, Cyngor Cymuned Llannon

Ymddiheuriadau: Aelodau:

Steve Barratt

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:

Stephen Pilliner – Pennaeth Trafnidiaeth a Phrifyrdd CSC
Neil Thomas – Uwch-reolwr Hamdden Awyr Agored CSC
Andrew Paterson - Swyddog Tir Comin CSC
Helen Grey - CNC
Phil Morgan - CNC

**Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru

EITEM	CMAU GWEITHREDU
<p>Eitemau 1 - Croeso ac Ymddiheuriadau</p> <p>Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod</p>	
<p>Eitem 2 (3 ar yr agenda) - Cynnig ar gyfer Parc Trefol ym Mharc Coetir y Mynydd Mawr</p> <p>Gwnaeth MH gyflwyno Sue James, Swyddog Cymunedol ar gyfer Cyngor Cymuned Llannon</p> <p>Rhoddodd SJ gyflwyniad ar-lein am y Parc Chwaraeon Trefol arfaethedig ym Mharc Coetir y Mynydd Mawr.</p> <p>Cytunodd rhai aelodau y gallai hyn fod yn amwynder da i bobl ifanc yr ardal pe bai wedi'i gynllunio a'i reoli'n dda.</p> <p>Cododd rhai aelodau gwestiynau am yr ymarferion ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd hyd yma a chyfleoedd ymgynghori pellach.</p> <p>Tynnwyd sylw at bryderon ynghylch defnyddwyr presennol y parc y gallai'r parc arfaethedig effeithio'n andwyol arnynt.</p> <p>Codwyd y mater o ran y gofyniad i ffensio'r safle o'r parcdir cyfagos a'r costau ychwanegol a allai godi.</p> <p>Rhoddodd SJ fanylion am yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd hyd yma, gan gynnwys digwyddiad galw heibio prysur iawn, a chytunodd fod llawer yn defnyddio'r parc ar hyn o bryd ac mae eu barn wedi cael ei hystyried ac y byddant yn cael eu hystyried. Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir gan y Fforwm Mynediad Lleol yn cael eu hystyried a bydd sylwadau'r cyhoedd yn parhau i gael eu gwerthuso cyn i unrhyw benderfyniadau terfynol gael eu gwneud a/neu os gwneir cais cynllunio. Nid oedd y gofyniad o ran ffensio yn hysbys ac mae'n ddarn defnyddiol iawn o wybodaeth ychwanegol.</p> <p>Gofynnodd yr Aelodau a ellid dosbarthu'r cyflwyniad i'w ddarllen ymhellach.</p> <p>SJ yn hapus i CF e-bostio'r ffeil i'r aelodau.</p> <p>Gofynnwyd i MH gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiect</p>	<p>CF</p>
<p>Eitem 3 (eitem 2 ar yr Agenda) - Camau gweithredu yn codi o'r Cofnodion</p> <p><u>Map digidol o Dir Comin gan gynnwys ardaloedd ar gyfer marchogaeth ceffylau</u></p>	<p>CF</p>

<p>CF – ni dderbyniwyd ffeil gan Andrew Patterson eto, bydd yn mynd ar drywydd hynny ac yn ei dosbarthu ar ôl ei derbyn.</p> <p><u>Beicio Caniataol ar Lwybrau Troed.</u></p> <p>MH – Heb gael ymateb hyd yma ar ôl gofyn am ragor o wybodaeth am hyn, bydd yn cael ei gynnwys mewn ymholiadau ar gyfer Pennaeth y Gwasanaeth ar ôl y cyfarfod.</p> <p><u>Prosiect Mapio Ffyrdd Gwyrdd TRF</u></p> <p>Heb wneud cynnydd ar hyn eto</p> <p><u>Parcio ym Mhen-bre</u></p> <p>MH – i'w gynnwys mewn ymholiadau ar gyfer Pennaeth y Gwasanaeth ar ôl y cyfarfod.</p>	<p style="text-align: center;">MH</p> <p style="text-align: center;">MH/MR</p> <p style="text-align: center;">MH</p>
<p>Eitem 4 – Y Diweddaraf am Hyrwyddo Llwybrau Cerdded CSC</p> <p>Darllenodd CF y diweddaraf gan Martin Murray ynghylch: hyrwyddo Llwybrau Cerdded drwy wefan Darganfod Sir Gâr</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae mwy o fideos wedi'u recordio neu ar y gweill - Talylychau, Llangennech a Llan-gain. • Mae mwy o deithiau cerdded wedi'u plotio ar yr ap "plotter route" yn barod ar gyfer cynhyrchu mwy o daflenni gan eu bod yn gweithredu fel dewis arall i lawrlwytho neu argraffu'r taflenni. • Mae Karen Burch wedi anfon cwpwl o lwybrau marchogaeth posibl yn y Sir. • Byddai rhai lluniau marchogaeth deniadol yn ddefnyddiol, yn ddelfrydol ar gyfer y llwybrau penodol hyn - neu rai cyffredinol da i greu tudalen we cyn hyrwyddo. • Mae'r Parcmyn wrthi'n gweithio ar deithiau cerdded eraill dan grant sydd wedi'u hyrwyddo yn y gorffennol ond y mae angen gwneud gwelliannau difrifol iddynt bellach, rhai â photensial newydd. 	
<p>Eitem 5 - Ymgynghoriad Teithio Llesol</p> <p>Bydd y broses ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn dod i ben ddiwedd mis Gorffennaf 2021, dylid gohirio'r eitem i gyfarfod yr Hydref.</p>	

Eitem 6 - Strategaeth Farchogaeth

CF – Datblygwyd cwestiynau'r arolwg ar y cyd â Chymdeithas Ceffylau Prydain a Carms Riders a chymorth profi gan aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol.

Mae ymgynghoriad ar waith ar ôl gohirio'r lansiad oherwydd 'purdah' (y cyfnod cyn etholiadau lle cyfyngir ar weithgareddau cyfathrebu) cyn yr etholiad.

Hyd yma, cafwyd 444 o ymatebion. Rhywfaint o ddata darluniadol allweddol gan farchogion ceffylau/gyrwr hyd yma - 91% o ymatebwyr yn drigolion Sir Gaerfyrddin, menywod yn bennaf (88%) a 45-54 oed yw'r grŵp oedran pennaf. Yn bennaf yn gorfforol abl ac yn farchogaeth eu ceffyl(au) ar ffyrdd gan amlaf. Galw sylweddol am fwy o fannau marchogaeth oddi ar y ffordd.

Rhai ymatebion gan fusnesau marchogol yn ogystal â rhai nad ydynt yn farchogion ceffylau/gyrwr a fydd hefyd yn ddefnyddiol i roi darlun cyflawn a llunio'r strategaeth.

Dim ymateb gan Gynghorau Tref a Chymuned nac Aelodau Etholedig eto. Bydd CF yn gweld a ellir dosbarthu rhyw fath o ddeunydd hyrwyddo i annog mwy o gyfranogiad.

CF

Eitem 7 – Prosiectau 2021-2022

Amlinellodd CF y 5 prosiect a gafodd y sgoriau uchaf a fydd yn cael eu cyflawni yn 2021-22 gan gynnwys prosiect Cydweli a ohirwyd o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

- Cilffyrdd Cydweli – gwella llwybr cylchol o gilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig yn ardal Cydweli.
- Cam 1 Llwybr Amldefnydd Cil-y-cwm - gwella llwybrau ceffylau a chilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig sy'n cysylltu pentref Cil-y-cwm â Chwrt y Cadno a Llwybr Amldefnydd Cothi presennol.
- Llwybrau i Bobl Llanybydder – prosiect gwella a arweinir gan wirfoddolwyr ar rwydwaith llwybrau troed o amgylch pentref Llanybydder ar y cyd â Cherddwyr Cymru.
- Categori A – datrys yr holl faterion a gofnodwyd ar lwybrau blaenoriaeth Categori A ledled y sir
- Llwybr Amldefnydd Rhandir-mwyn – gwella llwybrau ceffylau a chilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig sy'n cysylltu pentref Rhandirmwyn â Chil-y-cwm.

Mae adroddiad mewn perthynas â phrosiect Cydweli bron wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei ddsbarthu i'r aelodau i wneud sylwadau arno, gobeithio erbyn diwedd mis Gorffennaf.

Mae pob prosiect arall yn y camau paratoadol ac mae'r tîm cyfan yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y gellir cyflawni pob prosiect.

CF

Bydd pob prosiect yn cael ei hyrwyddo ar ôl ei gwblhau gan sicrhau bod y cyhoedd yn clywed ac yn gweld yr hyn rydym wedi'i wneud.

Yn gyffredinol, roedd yr Aelodau'n falch o glywed beth sydd ar y gweill ar y rhwydwaith.

Eitem 8 – Adroddiadau ar Faterion

Amlinellodd RL y canfyddiadau diweddaraf o ystadegau a gyhoeddwyd a dangosodd y darlun hirdymor o adrodd/datrys materion drwy daenlen Excel a graff.

Y pwyntiau allweddol i'w nodi yw'r patrwm cynyddol parhaus o faterion a gofnodwyd. Mae materion arwyddion sydd heb eu datrys wedi codi dros 20% mewn dwy flynedd ac mae nifer y materion o ran Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig wedi cynyddu'n sylweddol.

CF – gallai'r cynnydd o ran materion Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig fod oherwydd arolygon sy'n cael eu cynnal i baratoi ar gyfer prosiectau sydd i ddod.

Mae'r patrymau gwaith sy'n seiliedig ar brosiectau yn y dyfodol yn debygol o greu patrwm mewn ystadegau lle mae materion yn gostwng yn sydyn oherwydd bod prosiect(au) yn cael eu cyflawni ond fel arall yn cynyddu'n raddol tra bod gwaith paratoi fel arolygu a siarad â thirfeddianwyr yn cael ei wneud.

Eitem 9 – Arolwg Rhwydwaith 100%

CF - Fel y trafodwyd yn flaenorol, ein prif ddarn mawr o waith cyntaf i wirfoddolwyr fydd yr arolwg rhwydwaith 100%.

Disgwylir i'r gwaith o gyflwyno CAMSweb gael ei gwblhau ddiwedd mis Awst, a dyma'r feddalwedd rydym yn bwriadu ei defnyddio i reoli gwirfoddolwyr oherwydd gall ddyrannu eu gwaith a gallant ddewis tasgau a'u diweddarau pan fyddant wedi'u cwblhau.

Bydd yr hyfforddiant yr ydym yn mynd i'w drefnu gyda Cherddwyr Cymru yn darparu pecyn hyfforddiant pwrpasol, yn rhad ac am ddim, i wirfoddolwyr sy'n cynnal yr arolygon. Gan fod y gwaith o osod CAMSweb ar y gweill, rydym ar fin cyfarfod â Cherddwyr Cymru i drafod yr hyn y mae angen i'r hyfforddiant ei gynnwys.

Gobeithiwn y gall yr arolwg ddechrau yn yr Hydref.

KB - pa mor hir fydd hyn yn ei gymryd.

CF – methu dweud, yn dibynnu ar nifer y gwirfoddolwyr, effeithlonrwydd a'r tywydd. Byddai'n ddelfrydol cwblhau'r gwaith erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021-22 ond ni all ddweud a yw hynny'n realistig ar hyn o bryd.

Eitem 10 - Unrhyw Fater Arall

Mae tîm hawliau tramwy cyhoeddus CSC yng nghamau cynnar y broses o lunio taflen **'Gwybodaeth i Dirfeddianwyr'**, sy'n amlinellu cyfrifoldebau a goblygiadau cyfreithiol. Gobeithio y bydd yn helpu i leihau'r nifer uchel o ymholiadau cyffredinol sy'n cymryd llawer o amser mewn perthynas â chyfrifoldeb yn ogystal â materion gorfodi ffurfiol.

Yn gyffredinol, cytunodd yr Aelodau fod hyn yn gam cadarnhaol.

Gohiriwyd etholiad y Fforwm Mynediad Lleol newydd yn y cyfarfod diwethaf hyd at ddiwedd y flwyddyn fel y caniateir gan reolau COVID. Bydd hysbysebu ar gyfer aelodau newydd y Fforwm Mynediad Lleol yn dechrau yn yr Hydref gyda'r bwriad o orffen y broses o benodi aelodau newydd cyn cyfarfod y Fforwm yn y Gaeaf (Rhagfyr fel arfer). Fel ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol dylai, CF ystyried a chymeradwyo penodiadau, mae hyn wedi'i wneud yn wahanol yn y gorffennol ond o ystyried arferion gwaith cyfredol efallai mai dyma'r dull hawsaf ar gyfer 2021.

Yn gyffredinol, cytunodd yr Aelodau i'r amserlen hon a'r dull gweithredu hwn.

Tynnodd JG sylw at ddogfen graffu'r adran Priffyrdd mewn perthynas ag adolygu **Gwaith Cynnal a Chadw Perthi ac Ymylon** cyn y cyfarfod gan fynegi rhai pryderon ynghylch diffyg ystyriaeth gyhoeddedig ar gyfer marchogion a'r testun am ffin y briffordd. Mynegodd KB bryder hefyd ynghylch ymylon ffyrdd fel lloches i farchogion.

CF – O ran eithrio marchogion rhag defnyddio ymylon, mae ein rhwydwaith ffyrdd yn agored i bawb felly nid oes neb yn cael ei eithrio, nid yw marchogion yn cael eu henwi ac efallai y gellir adolygu hynny yn y dyfodol – camau posibl ar gyfer y Strategaeth Farchogaeth.

O ran maint/ffiniau priffyrdd, mae'r ddogfen yn nodi'n glir bod diffyg eglurder weithiau o ran maint priffyrdd, mae rhai rhagdybiaethau bras i gynnig eglurder, ond 'dylid cofio bob tro mai rhagdybiaethau yn unig ydynt ac efallai y bydd angen edrych ar bob sefyllfa'n unigol'.

JG – defnyddiwyd y rhagdybiaeth bras heb ymchwiliad pellach mewn ardaloedd ym Mrechfa.

CF – Nid yw achosion penodol yn rhywbeth i'r Fforwm Mynediad Lleol ei drafod, mae'r ddogfen yn cefnogi ymchwiliad fesul achos os nad yw'r graddau'n glir. Dylid codi materion unigol â'r adran berthnasol.

Gofynnodd PB a ellid **cynhyrchu cofnodion yn gyflymach** i ganiatáu mwy o amser i'w adolygu cyn y cyfarfod nesaf.

Cytunodd CF y byddai'n ymdrechu i wneud hyn.

Bydd MH yn ysgrifennu e-bost dilynol at SP i godi'r ymholiadau amrywiol a amlygwyd ar ei gyfer ynghyd â mater o'r cyfarfod blaenorol. Os oes gan unrhyw un unrhyw beth yr hoffent ei godi, nad yw eisoes wedi'i grybwyll, anfonwch e-bost i MH.	
Eitem 11 - Y Cyfarfod Nesaf 9 Medi	